
# Dyddlyfr Lewis Jones, 1862-3

Roedd y dyddlyfr hwn yn perthyn i Lewis Jones (1836-1904). Mae'n cofnodi ei daith i Ariannin ym 1862-3 i gynnal trafodaethau â'r llywodraeth ac i archwilio tir ym Mhatagonia.



*Chwefror 11, 1863 6 o'r gloch y boreu*

*Cychwynasom yn y cwch i fyny y Chupat. Glanio a cherdded milltiroedd yma ac acw nes myned ryw 20 milldir i fyny lle yr oedd ucheldir, o'r man y gwelem yr holl fro. Saethu hwyaid a dyfrgwn ar y ffordd, a dychwelyd erbyn wyth o'r gloch y nos. Y ddau gadben yn cweryla, a hyny y mae arnaf ofn yn achosi na chawn gychwyn y foru.*

*12*
*Yn lle dychwelyd y mae'r cadben wedi myned i'r llong ddrylliedig i ysbeilio. Y gwynt yn groes yn dod o ddwylaw Norris yn dod atom wedi ei adael ar y lan yn New Bay*

*13*
*Un o'r dwylaw yn diangc y boreu myned i'r llyn halen ar y lan ddeheuol, lle yr oedd lluaws o ysgyfarnogod. Y prydnawn i un arall, ond heb ddala dim.*

*14*
*O'r diwedd tua haner dydd dyma gychwyn yn ol wedi oedi annerfyn – yn rhy hwyr ofn wyf i ddal y mail.*

*15 (Sabboth)*
*Dim gwynt a ninnau yn gwneud dim ffordd. Ar gyfer Gorynys Valdes yn y nawn. Pysgod ac adar. Yn wachul iawn.*

Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopïo am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg